Crynodeb 60 eiliad

# Gwerthu pyramidaidd: cyngor i'r cyhoedd a chymunedau

CMA
Competition & Markets Authority

## Sut i adnabod gwerthu pyramidaidd, osgoi'r risgiau o gymryd rhan ynddo a'i adrodd.

Mae gwerthu pyramidaidd yn digwydd pan fydd cyfranwyr mewn cynllun yn cael eu digolledu'n ariannol gan bobl eraill sy'n talu i mewn i'r cynllun yn hytrach na thrwy werthu cynnyrch neu wasanaeth. Maent yn:

- ☐ dibynnu ar recriwtio aelodau newydd i dalu i mewn
- ☐ dibynnu ar aelodau'n hyrwyddo'r cynllun i'w teulu, ffrindiau a chydweithwyr
- ☐ syrthio'n ddarnau – bydd naw o bob deg cyfranogwr yn colli ei arian

### Peidiwch


- ag ymuno â chynllun gwerthu pyramidaidd – rydych yn debygol o golli eich arian
- â gofyn i'ch teulu neu ffrindiau ymuno – gallent hefyd golli eu harian
- â sefydlu, gweithredu na hyrwyddo cynllun gwerthu pyramidaidd – mae'n anghyfreithlon ac mae perygl y cewch gollfarn droseddol, dedfryd o garchar a dirwy

### Dylech

- adrodd ar unrhyw un sy'n gweithredu neu hyrwyddo cynllun gwerthu pyramidaidd
- stopio eich teulu, ffrindiau a chydweithwyr rhag ymuno â chynllun gwerthu pyramidaidd

Os byddwch yn ymuno â chynllun gwerthu pyramidaidd rydych yn debygol o golli eich arian. Os ydych yn hyrwyddo neu weithredu un, gallech fynd i'r carchar.

Datblygwyd y grynodeb gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Action Fraud, Cyngor ar Bopeth a Thimau Atal Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol.



### Sut mae'r gyfraith yn eich diogelu chi rhag gwerthu pyramidaidd?

Mae cynlluniau gwerthu pyramidaidd yn anghyfreithlon a gall y rhai sy'n eu sefydlu, gweithredu neu hyrwyddo gael eu herlyn gan y Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.

Mae naw o bobl wedi eu collfarnu dan y gyfraith hon yn ystod 2012-14.

**Darllenwch fwy yma: www.bit.ly/pyramidcase**

### I adrodd am achos o werthu pyramidaidd

**Ffoniwch Action Fraud ar 0300 123 2040**

**Ewch i www.actionfraud.police.uk**

**Ffoniwch Cyngor ar Bopeth ar 03454 040506**

**Yng Ngogledd Iwerddon, ewch i www.consumerline.org neu ffonio 0300 1236262**

Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.